**ADRAN 153 O DDEDDF CYNLLUNIO 2008 A RHEOLIAD 6 O REOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (NEWID A DIRYMU GORCHMYNION CYDSYNIAD DATBLYGU) 2011**

**RHYBUDD O GAIS I WNEUD NEWID ANSYLWEDDOL I'R GORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU A GANLYN:**

**GORCHYMYN GORSAF GYNHYRCHU STORFA BWMPIO GLYN RHONWY 2017 (SI 2017/330) FEL Y'I CYWIRWYD GAN ORCHYMYN GORSAF GYNHYRCHU STORFA BWMPIO GLYN RHONWY (CYWIRIAD) 2017 (SI 2017/969) AC FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN GORSAF GYNHYRCHU STORFA BWMPIO GLYN RHONWY (DIWYGIO) (CYMRU) 2021**

Hysbysir drwy hyn bod Snowdonia Pumped Hydro Limited ("SPH") o 35 Ballards Lane, Llundain, N3 1XW wedi cyflwyno cais i Weinidogion Cymru i wneud newid ansylweddol i Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 (fel y'i cywirwyd gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Cywiriad) 2017) ac fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2021 ("y Gorchymyn") o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ("y Cais").

Mae'r Gorchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu i adeiladu ac i weithredu cyfleuster storfa bwmpio sy'n cynnwys cronfeydd dŵr uchel ac isel, pibell, pwerdy, gorsaf bwmpio, gorlifannau a datblygiad ategol gydag allbwn o 99.9 megawat yn chwareli Glyn Rhonwy a Chwarel Fawr, ger Llanberis, Gwynedd, Cymru.

Mae'r Cais yn ceisio gwneud newid ansylweddol i'r terfyn amser ar gyfer dechrau adeiladu drwy ddiwygio Gofyniad 2 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn oherwydd cynnydd na welwyd ei debyg o'r blaen mewn costau adeiladu sy'n gysylltiedig â ffactorau ar ôl Covid, a gwaith parhaus ar bolisi ynni i gefnogi Storio Ynni Hirdymor ar Raddfa Fawr. Y terfyn amser ar gyfer dechrau adeiladu a nodir yng Ngofyniad 2 y Gorchymyn yw 29 Mawrth 2024. Y newid ansylweddol a gynigir yw ymestyn y terfyn amser hwn 2 flynedd a fyddai'n golygu mai'r dyddiad olaf ar gyfer dechrau adeiladu fyddai 29 Mawrth 2026.

Mae copi o'r Cais a'i ddogfennau, cynlluniau a mapiau cysylltiedig sy'n dangos natur a lleoliad y tir dan sylw ar gael i'w harchwilio, yn rhad ac am ddim, drwy wefan yr Arolygiaeth Gynllunio a thrwy wefan prosiect Glyn Rhonwy tan 10/11/2023:

Gwefan yr Arolygiaeth Gynllunio:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/

Gwefan prosiect Glyn Rhonwy:

https://www.snowdoniapumpedhydro.com

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r dogfennau neu os oes angen copi caled o unrhyw un o'r dogfennau uchod arnoch (er enghraifft, am nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur ac nad ydych yn gallu gweld y dogfennau ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio neu wefan prosiect Glyn Rhonwy), gallwch ofyn am gopïau caled, yn rhad ac am ddim, drwy gysylltu â SPH yn info@snowdoniapumpedhydro.co.uk neu Snowdonia Pumped Hydro Limited, 12A Talus House, Halstead, Essex, CO9 2BX neu 01787827277.

Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau am y Cais i:

E-bost: GlynRhonwy@planninginspectorate.gov.uk

Post: Tîm Achos Glyn Rhonwy, Yr Arolygiaeth Gynllunio, Temple Quay House, 2 The Square, Bristol, BS1 6PN

Byddwch cystal â nodi cyfeirnod "Glyn Rhonwy – EN010072" mewn unrhyw ohebiaeth.

Bydd sylwadau'n cael eu gwneud yn gyhoeddus gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'u cyhoeddi ar dudalen prosiect perthnasol y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Sylwch fod yn rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio dderbyn sylwadau erbyn 10/11/2023.

**SNOWDONIA PUMPED HYDRO LIMITED 27/09/2023**